PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 155 | Rhif 35 | Medi 1, 2022 | 50c.

## Cellan: Capel yr Erw

Trefnwyd cyfarfod arbennig yng Nghapel Yr Erw ar brynhawn Sul 3 Gorffennaf i gofio am ddau o feibion y capel a wnaeth gyfraniad mawr dros Gymru a'r Gymrae-g sef y diweddar Athro Griffith John Williams a'i frawd y Dr Matthew Williams.

Roedd y gwasanaeth yng ngofal Elenid Jones o Gaerdydd, sef merch y diweddar Matthew Williams a chyn aelod o dîm Cymorth Cristnogol sydd wedi teithio i lawer gwlad dlawd i drefnu elusen y mudiad.

Ar ôl darlleniad a gweddi soniodd am ei thad-cu sef John Williams y gof a fu yn ysgrifennydd y capel ac yn godwr canu dros 50 mlynedd. Roedd ei wybodaeth ef a'i wraig Ann am y Beibl yn eang a thrylwyr a rhyfeddwyd llawer yn yr ysgol Sul ar eu gwybodaeth. Soniodd am gyfraniad y gof yn yr ardal ac mae ei waith i weld hyd heddiw gan mai ef wnaeth y ddwy iet wrth fynedfa i'r capel.

O ddiddordeb hyfryd iddi oedd gweld cadair Eisteddfod Y.M.A. Pwllheli 1914 a enillwyd gan ei ewythr a'i chyflwyno i'r capel. Enillwyd cadair o'r un gwneuthuriad y flwyddyn gynt yn 1913 gan Hedd Wyn, sydd i'w gweld yn Yr Ysgwrn, Trawsfynydd. Yn dilyn y gwasanaeth ymunodd pawb ar y lawnt tu allan i gael lluniaeth ysgafn a chymdeithasu pellach.

**Miss Eirios Jones,**
**Capel yr Erw**





## Rhaglen Arloesi a Buddsoddi

Arloesi a Buddsoddi

Rhaglen Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Dyma gyfle i'r eglwysi gael nawdd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i fuddsoddi yn eu dyfodol drwy fentro mewn ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo a chyhoeddi'r Efengyl, ac estyn allan i wasanaethu eu cymunedau a'u hardaloedd.

Cynigir symiau sylweddol iawn – hyd at £50,000 dros gyfnod o 5 mlynedd.

Cysylltwch â Tŷ John Penri
undeb@annibynwyr.cymru 01792 795888

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau newydd yw dydd Gwener, 28 Hydref, 2022.**

## Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd

Y mae'r Undeb yn aelod o'r corff eglwysig uchod ers blynyddoedd lawer ac yn ystyried hynny'n fraint, wrth gwrs. Testun llawenydd yw perthyn i deulu â rhyw 233 o eglwysi/undebau eglwysig yn aelodau ohono yn cynrychioli rhyngddynt dros 100 miliwn o Gristnogion mewn 105 o wledydd ledled y byd.

Wedi'i uno yng Nghrist a'i wreiddio yn y traddodiadau diwygiedig hanesyddol, cred CEDB bod ymateb i alwad Duw i ddiwallu anghenion pobloedd, meithrin cyfiawnder i bawb a thrawsnewid y byd trwy gariad Iesu Grist, yn greiddiol i'w fodolaeth.

Nid syndod, wedyn, gweld ar ei agendâu faterion yn ymwneud â bywyd y greadigaeth yn ei chyfanrwydd. Daeth hyn i'r golwg ddiwedd 2021 wrth i'w bwyllgor gweinyddol benderfynu neilltuo'r blynyddoedd nesaf fel Degawd dros Gyfiawnder Hinsawdd, gan gredu y

*parhad ar dudalen 2*

# Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd – parhad

bydd y ddegawd hon o frwydro yn erbyn newid hinsawdd yn ysgogi cymunedau ffydd ynghyd â phawb sy'n trysori bywyd i weithredu gyda'i gilydd i ddyrchafu bywyd a'i gynnal.

### Enwebiad

Un fu â llaw yn y penderfyniad hwn yw'r Dr Hefin Jones, Caerdydd. Enwebwyd ef gan yr Undeb i eistedd ar bwyllgor gweinyddol CEDB 'nôl yn 2017 ac ers hynny, bu'n fawr ei gyfraniad i



waith y pwyllgor a'r cymundeb. Fydd hyn yn ddim syndod i'w gydnabod gan iddo hen ennill enw fel gweithiwr diflino ac ymroddedig yn ein plith, waeth beth fo'r gorchwyl mewn llaw. Y mae ganddo ddoniau anghyffredin, wrth gwrs, yn ysgolhaig disglair ag adnoddau deallusol sylweddol yn ei feddiant, wedi eu plethu i bersonoliaeth gynnes, hawddgar a hoffus. Nid yn lleiaf y mae ei gariad at ei Arglwydd a'i eglwys a'i awydd diwyro i'w wasanaethu ynddi a thrwyddi.

Pa ryfedd i Hefin gael ei wahodd yn ddiweddar gan ein cyfeillion yn CEDB i fod yn gadeirydd y gweithgor newydd a ffurfiwyd ganddo i edrych ar faterion yn ymwneud â chyfiawnder hinsawdd. Y mae hyn yn achos llawenydd a balchder mawr inni ac yr ydym fel Undeb yn dymuno'r gorau i Hefin wrth iddo gydio yn y gwaith. Gwyddom, o brofiad, y caiff y gweithgor arweiniad diogel a chadarn ganddo a does gennym yr un amheuaeth nad ef yw'r person ar gyfer y dasg.

Mewn dyddiau pan fo effeithiau newid hinsawdd yn gynyddol amlygu eu hunan gweddïwn am fendith Duw ar waith y gweithgor hwn a'i debyg, gan edrych ymlaen yn eiddgar at dderbyn, maes o law, drwy CEDB ganllawiau fydd yn ein galluogi i fyw fel stiwardiaid cyfrifol Duw yn y byd.

# Croeso cynnes Cymreig

Cafodd digwyddiad o'r enw 'Croesawu ymgeiswyr lloches a ffoaduriaid yn ein dinas a'n cymunedau' ei gynnal yn Glenwood, Caerdydd ar 14 Gorffennaf. Bwriad y digwyddiad oedd codi ymwybyddiaeth am y sefyllfa yn ein byd heddiw, adlewyrchu a rhannu syniadau, a rhwydweithio. Roedd hi'n hyfryd gweld cymaint yno, a chroestoriad o eglwysi wedi mynychu fel un Eglwys yn rhannu'r un weledigaeth, i ddangos cariad Duw at y grwpiau bregus yma yn ein cymunedau ni. Clywon ni leisiau amrywiol yn rhannu gwybodaeth, profiadau a straeon, gan gynnwys cynrychiolwyr o Open Doors, Oasis a rhai eglwysi sy'n gwneud gwaith gwerthfawr i gefnogi ymgeiswyr lloches a ffoaduriaid. Wrth i fwy a mwy o ffoaduriaid gyrraedd ein dinas, rhaid i'r Eglwys sefyll gyda nhw, a chamu i fyny i'r her o'n blaenau. Gweddïwn ar i Dduw agor ein llygaid i weld yr angen, ac i'n cymhwyso ni i her ein hoes, er mwyn i ni fod yn halen ac yn oleuni.





### Croeso cynnes Cymreig

Un o'r cysyniadau wnaeth fy nharo yn ystod y digwyddiad ac sydd wedi aros gyda fi ers hynny oedd y syniad o roi 'croeso cynnes Cymreig' i'r ymgeiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n cyrraedd ein prifddinas. Mae croeso a lletygarwch yn werthoedd canolog i'n diwylliant ni yng Nghymru, ac yn werthoedd Beiblaidd y dylen ni weithio'n galed i'w cynnal a'u trysori. Mae ymgeiswyr lloches a ffoaduriaid wedi gorfod wynebu erchyllterau, heriau tu hwnt i ddychymyg, ac wedi cael profiadau trawmatig. Maen nhw oll wedi gorfod ffoi o sefyllfaoedd difrïol, ac wedi gwneud teithiau hir ac anodd i gyrraedd eu cartref newydd, boed hynny dros dro neu'n hir dymor. Mae'r Cymry'n dda am ddarparu croeso cynnes, ac mae hyn yn ffordd allweddol o ddangos cariad at ein cymdogion newydd. Bydd hyn yn arwain at fagu perthynas hyfryd a chyfeillgarwch.

### Deall

Mae sefyllfaoedd a phrofiadau pob unigolyn sydd yn ceisio lloches yn y DU yn unigryw ac yn gymhleth. Mae'n bwysig i ni fel eglwys gael dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o anghenion, diwylliant a thrawma er mwyn gallu cwrdd ag anghenion pobl yn effeithiol mewn modd sensitif, gwybodus a llawn gofal. Mae nifer o adnoddau ar gael, ac mae'n bwysig gwrando ar bobl yn lle gwneud rhagdybiaethau.

Roedd y digwyddiad yn un ysbrydoledig a heriol, ac yn hawlio ymateb. Roedd yn galonogol clywed fod yr Eglwys a mudiadau Cristnogol lleol yn bod yn weithgar i geisio gwneud cysylltiad ystyrlon gydag ymgeiswyr lloches a ffoaduriaid. Gallwn ymateb yn ymarferol, yn ariannol - trwy gefnogi elusennau fel Open Doors, Oasis - a thrwy weddi. Mae'n hawdd gweld pobl yn y grwpiau hyn fel ystadegau, neu brosiectau, ond fel corff Crist rydyn ni'n cael ein galw i weld y bobl hyn trwy lygaid Duw a dilyn esiampl Iesu yn ei galon a'i ofal dros y bregus.

Edrychaf ymlaen at allu rhwydweithio mwy, er mwyn i ni gydweithio mewn undod fel Eglwys i wneud gwaith y Deyrnas ar y ddaear. Gweddïwn dros yr ymgeiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru, a'r gwaith gwerthfawr sy'n cael ei wneud i'w cefnogi; mae pŵer, grym a gwerth mewn gweddi. Rydym oll wedi cael ein creu ar ddelw Duw, ac wedi'n caru gan Dduw - boed i'r gwirioneddau yma fod yn sail i'n hymateb ni.


> Rhaid i'ch cariad chi fod yn gariad go iawn – dim rhyw gariad arwynebol. Yn casáu y drwg â chasineb perffaith, ac yn dal gafael yn beth sy'n dda. Byddwch o ddifri yn eich gofal am eich gilydd, a dangos parch at eich gilydd. Peidiwch byth â gadael i'ch brwdfrydedd oeri, ond bod ar dân yn gweithio i'r Arglwydd yn nerth yr Ysbryd Glân. Byddwch yn llawen wrth feddwl am y cwbl sydd gan Dduw ar eich cyfer chi. Byddwch yn amyneddgar tra dych chi'n dioddef, a daliwch ati i weddïo. Rhannwch beth sydd gynnoch chi gyda phobl Duw sydd mewn angen. Ewch allan o'ch ffordd i roi croeso i ymwelwyr yn eich cartrefi bob amser.
>
> Rhufeiniaid 12:9-13

**Carys Mair Jones**

Yr Adran
Gydenwadol

MEDI 1 2022 RHIF 79

# *Gwinllan a Roddwyd: Hanes y Cylch Catholig*, gan Ioan Roberts (Y Lolfa; ISBN: 9781800991101; pris £12.99)




Priodas Gatholig gwbl breifat, heb yr un aelod o'u teuluoedd yno, gafodd Saunders Lewis a'i wraig, Margaret Gilcriest, ac nid oedd achlysur priodas Catherine a J. E. Daniel yn achlysur hapus, yn ôl y sôn. Cynhaliwyd y briodas honno yn gynnar ar fore Mawrth heb fod yr eglwys wedi ei haddurno o gwbl ac 'roedd mamau'r pâr priodasol yn eu dagrau'n ceisio cysuro'i gilydd, y naill am fod ei merch wedi ymuno â'r Eglwys Gatholig a'r llall am fod ei mab wedi priodi Pabyddes'.

### Gwrth-Gatholigiaeth

Mae'r hanesion rhyfeddol yna'n dangos pa mor wrth-Gatholig, ar y cyfan, mae'r traddodiad Cristnogol Cymraeg wedi bod, ac o ganlyniad cyn lleied y gwyddom amdani. Cymaint yw goruchafiaeth Protestaniaeth yng Nghymru nes bod y ffydd Gatholig bron yn cael ei gweld fel crefydd hollol wahanol. Pleser o'r mwyaf felly oedd canfod cyfrol y diweddar Ioan Roberts, *Gwinllan a Roddwyd: Hanes y Cylch Catholig*, yn yr Eisteddfod eleni. Cyhoeddwyd y gyfrol y llynedd gan y Lolfa ond am ryw reswm dim ond eleni y daeth i fy sylw i. Mae'n gyfrol boblogaidd a darllenadwy am ran fechan, ond rhan bwysig, o hanes diweddar y ffydd Gristnogol yng Nghymru. Mae hefyd yn rhan bwysig o hanes cenedlaetholdeb gan fod stori llawer o'r prif gymeriadau, fel Saunders Lewis a Catherine a J. E. Daniel, yn bobl yr oedd eu ffydd a'u cenedlaetholdeb wedi eu hasio mewn ffordd na ellir eu gwahanu.

Nid Catholig ydw i, ond Protestant o'r iawn ryw, un o blant y traddodiad Efengylaidd – un a fagwyd ym mhethau'r Mudiad Efengylaidd a'm codi mewn Eglwys Efengylaidd cyn i mi wedyn dderbyn galwad at y Bedyddwyr. Nid annheg fyddai dweud fod yna bolemig gwrth-Gatholig wedi fy amgylchynu yn tyfu i fyny yn y Mudiad Efengylaidd, oherwydd mae'n ffaith hanesyddol fod polemig gwrth-Gatholig wedi nodweddu'r cyfan, bron, o'r traddodiad Protestannaidd Cymreig. Ond wrth ddarllen y llyfr yma, cefais f'atgoffa fod yna dipyn o dir cyffredin rhyngom a'n brodyr a'n chwiorydd Catholig, er bod yna wahaniaethau mawr a sylfaenol hefyd. Mewn gwirionedd mae yna lawer mwy o dir cyffredin nag y mae rhywun yn sylweddoli … neu o leiaf eisiau ei gydnabod!

### Ymateb i ryddfrydiaeth ddiwinyddol

Os dechreuwn gyda'r rhesymau a barodd i rai o aelodau cynharaf y Cylch Catholig droi o ffydd Brotestannaidd at Gatholigiaeth. Yr hyn sy'n ddiddorol yw bod eu rhesymau'n rhyfeddol o debyg i'r symbyliad, maes o law, i Efengylwyr droi eu hymdrechion at waith y Mudiad Efengylaidd ar ôl cael eu dadrithio gyda bywyd yr enwadau anghydffurfiol. Un o'r ddau brif reswm oedd rhemp rhyddfrydiaeth ddiwinyddol, oedd â thuedd i wadu athrawiaethau clasurol fel duwioldeb Crist. Yr ail reswm oedd y canfyddiad fod yna ddiffyg ysbrydolrwydd i'w weld yng nghapeli ac eglwysi Cymru o ganlyniad i ddylanwad materoliaeth a'r pwyslais ar y cymdeithasol.

Dywedodd Catherine Daniel mai un o'r prif resymau a'i harweiniodd at dröedigaeth Gatholig oedd iddi fethu canfod 'unrhyw athrawiaeth gyson am yr Arglwydd Iesu' ymhlith y traddodiad anghydffurfiol. Beirniadaeth debyg a glywir yn aml gan Efengylwyr. Prif reswm Saunders Lewis oedd diffyg ysbrydolrwydd a'r ymdeimlad o alwad at addoliad 'pur' yr offeren Gatholig. Er nad oes i'r sacrament rôl bwysig i lawer o Efengylwyr, mae yna naratif o fod eisiau 'ffoi' oddi wrth ddiffyg ysbrydolrwydd yr enwadau i ffurf uwch neu fwy 'pur' o Gristnogaeth. Ond yng ngrym y bregeth eneiniedig a chynhesrwydd y cyfarfod gweddi y canfyddir purdeb addoliad i'r Efengylwyr, nid yn yr offeren Gatholig.

### Tröedigaeth

Thema arall a dynnodd fy sylw oedd y syniad o 'dröedigaeth'. Mae'r cysyniad o dröedigaeth yn ganolog i'r traddodiad Catholig a'r traddodiad efengylaidd fel ei gilydd. Ond yr hyn sy'n ddiddorol yw bod y term yn cael ei ddefnyddio yn llyfr Ioan Roberts i ddisgrifio'r hyn sy'n digwydd pan fydd rhywun fel Saunders Lewis neu Harri Pritchard Jones yn troi o'r ffydd Brotestannaidd ac yn ymuno â'r Eglwys Gatholig; hynny yw, tröedigaeth eglwysig neu newid ffydd, yn hytrach na dod i gredu. Ond yn y traddodiad efengylaidd mae'r syniad o dröedigaeth yn ymwneud yn bennaf â ffydd bersonol ac ailenedigaeth: hynny yw, rhywbeth rhwng pobl a Duw, heb fod ymuno ag eglwys o reidrwydd yn rhan o'r peth. Dyma sydd tu ôl i'r mantra: 'nid wyf yn grefyddol; dwi'n berson â pherthynas bersonol a Christ', a pham mae rhai Efengylwyr (nid pawb!) yn meddwl y gallwch chi fod yn Gristion heb berthyn i eglwys. Erbyn hyn rwy'n credu fod y traddodiad efengylaidd wedi datblygu diwinyddiaeth well ynghylch eglwysyddiaeth, a bod 'dod yn Gristion' yn ymwneud lawn cymaint â dod i berthyn i'r eglwys, pobl Dduw, ag ydyw ynglŷn â meddu ar ffydd bersonol.

### Ennill Cymru i Grist

Yn y bôn, mudiad cenhadol oedd y Cylch Catholig i ddechrau. Criw dethol oedd wedi derbyn galwad i droi'r Cymry yn ôl at yr 'hen ffydd', y ffydd Gatholig. Yn yr un modd, cenhadaeth oedd – ac yw – thema fawr Efengylwyr, ac mae'r naratif 'Ennill Cymru i Grist' wedi bod yn bwysig i'r Mudiad Efengylaidd erioed. Ond i'r Efengylwyr, wrth gwrs, galw Cymru yn ôl at Gristnogaeth Awstinaidd, Brotestannaidd, yw'r weledigaeth. Mae'r ddau draddodiad eisiau galw'r Cymry yn ôl at Gristnogaeth 'bur', er bod eu syniad o beth yw'r Gristnogaeth honno yn bur wahanol! 'Restorationism' fyddai un ffordd o ddeall gweledigaeth y Cylch Catholig a'r Mudiad Efengylaidd fel ei gilydd.

Roedd hi'n ddiddorol darllen fod gweithgareddau cyhoeddus y Cylch Catholig wedi canolbwyntio ar dair prif elfen, sef: i) encil flynyddol; ii) cyhoeddi cylchgronau, a iii) presenoldeb cenhadol ar faes yr Eisteddfod. Er bod gweithgareddau'r Mudiad Efengylaidd

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Gwinllan a Roddwyd: Hanes y Cylch Catholig,* gan Ioan Roberts

*(parhad o dudalen 1)*

yn llawer mwy eang na hynny, mae'n ddiddorol nodi mai dyna, yn gyffredinol, ydy tair gwedd fwyaf cyhoeddus gwaith y Mudiad Efengylaidd ymhlith y Cymry Cymraeg hefyd: trefnu cynhadledd flynyddol yn Aberystwyth, cyhoeddi'r *Cylchgrawn Efengylaidd*, a chynnal stondin at ddiben efengylu ar faes yr Eisteddfod.

### Crefydd y werin?

Fodd bynnag, er y tebygrwydd, mae yna wahaniaethau sylfaenol rhwng y Cylch Catholig a'r Mudiad Efengylaidd, a mwy na dim ond gwahaniaethau diwinyddol hefyd. Yn y degawdau cynnar roedd y Cylch Catholig yn gymharol uchel-ael a hyd yn oed yn 'aristocrataidd', yn ôl Ioan Roberts, yn bennaf oherwydd dylanwad un dyn, sef Saunders Lewis. Maes o law fe ddaeth teulu ystad Garthewin yn ddylanwad mawr hefyd, ac mae'n amlwg fod mwynhau lletygarwch a nawdd teulu boneddigaidd yn fwy na derbyniol gan Saunders. Ond symudiad gwerinol fu'r Mudiad Efengylaidd o'r dechrau, gyda rhai o'r arweinwyr mwyaf dylanwadol, fel fy nhad-cu fy hun, yn blant i lowyr a chwarelwyr, a chynhesrwydd gwerinol yn eu Cristnogaeth anghydffurfiol ddiwygiedig a diwygiadol. Nid hanesion am fwynhau lletygarwch ar ystadau boneddigaidd a nodweddai bobl y Mudiad Efengylaidd, ond yn hytrach lletygarwch teuluoedd fferm fynydd Bryn Uchaf, Llanymawddwy, neu gartref gwerin Bryn Powys yng Nghaernarfon.

### Her heddiw

Ond beth am y sefyllfa heddiw wrth edrych yn ôl ar bron i ganrif o hanes y Cylch Catholig a'r Mudiad Efengylaidd? Er y duedd wrth-Gatholig ymhlith Efengylwyr, mae'n bwysig cydnabod fod genesis tröedigaeth Gatholig pobl fel Saunders a gweld sefydlu'r Mudiad Efengylaidd maes o law yn perthyn i'r un stori. Fel y mae pobl eraill wedi dangos, mae'r ddau yn ymateb ceidwadol i ryddfrydiaeth oedd wedi colli calon Cristnogaeth: un yn ymateb Catholig i'r argyfwng ffydd, a'r llall yn ymateb Protestannaidd, ond y ddau'n apelio at uniongrededd. Ar ryw wedd mae'n annheg cymharu'r Cylch a'r Mudiad, ond eto mae'n ddiddorol nodi bod eu calon a'u sêl genhadol yn ddigon tebyg, sef eu dyhead i alw Cymru yn ôl at yr 'hen ffydd'.

Ond beth yn union yw'r 'hen ffydd' honno? Ni fyddai cyfeillion y Cylch Catholig yn gyfforddus gydag agweddau Isel-eglwysig y Piwritaniaid yn yr un modd ag na fyddai'r Efengylwyr yn gyfforddus â Christnogaeth Gatholig Cymru'r Oesoedd Canol. Ond tybed, o fynd yn bellach yn ôl eto, a allwn ddarganfod undod o gwmpas ein gwreiddiau yn yr eglwys Geltaidd … os oedd yna'r fath beth yn bod?

> Gwinllan a roddwyd i'm gofal yw Cymru fy ngwlad,
> i'w thraddodi i'm plant, ac i blant fy mhlant,
> yn dreftadaeth dragwyddol.
> Ac wele'r moch yn rhuthro arni, i'w maeddu.
> Minnau yn awr, galwaf ar fy nghyfeillion,
> cyffredin ac ysgolhaig,
> Deuwch ataf i'r adwy,
> Sefwch gyda mi yn y bwlch,
> fel y cadwer i'r oesoedd a ddel y glendid a fu.
>
> (*Buchedd Garmon*, Saunders Lewis)

**Nodyn i esbonio un peth: Mae 'Mudiad Efengylaidd Cymru' yn elusen sy'n cefnogi Cristnogion o duedd efengylaidd sy'n perthyn i unrhyw eglwys/capel, eglwysi 'Efengylaidd' neu eglwysi/capeli sy'n perthyn i enwadau fel Eglwys Bresbyteraidd Cymru ayb. Nid enwad yw'r 'Mudiad Efengylaidd'. Yn yr un modd nid yw pob Cristion neu eglwys/capel sy'n arddel diwinyddiaeth efengylaidd yn ymlynu wrth y 'Mudiad Efengylaidd'. Yn yr erthygl hon rwy'n siarad am 'Efengylwyr' yn gyffredinol, ac weithiau'n siarad am y 'Mudiad Efengylaidd' (Mudiad Efengylaidd Cymru) yn benodol.

*Rhys Llwyd*

### Gwasanaeth Coffa

## Nia Rhosier

(1933–2022)

Llywydd Anrhydeddus Cymdeithas y Cymod (2010–2022)

**yn Hen Gapel John Hughes, Pontrobert**

**Sadwrn, 10 Medi 2022, 2.00 pm**

Teyrngedau i Nia gan:

Nest Ceris Jones (chwaer)

Beryl Vaughan

R. Alun Evans

Robin Gwyndaf

Croeso cynnes i bawb; darperir lluniaeth ysgafn i ddilyn

Bydd cyfle i roi cyfraniad er cof am Nia tuag at yr Hen Gapel (yn ôl ei dymuniad)

# Adlais yng Ngholeg y Bala

Rydym yn hapus iawn i allu rhannu gwybodaeth am benwythnos 'Adlais' a fydd yn cael ei gynnal yng Ngholeg y Bala, 9–10 Medi. Bydd yn benwythnos o fawl a chyfansoddi yng nghwmni Cadi Gwyn a Meilyr Geraint a'r band.

Nos Wener: Noson o Fawl a Chymdeithasu
Bore Sadwrn: Seminar am addoliad a chalon Adlais dros 'addoliad cyfoes Cymraeg'
Prynhawn Sadwrn: Gweithdy cyfansoddi caneuon
Nos Sadwrn: Y cyfle cyntaf i glywed caneuon newydd Adlais yn fyw, a chyfle i foli gyda'n gilydd.

Beth bynnag eich dawn, os ydi addoliad ar eich calon mewn unrhyw ffordd, gwnewch yn siŵr eich bod yn ymuno â ni, naill am y penwythnos cyfan neu'r Sadwrn yn unig. Y gost fydd £40 am y penwythnos; bydd hyn yn cynnwys gwely a brecwast nos Wener a'r holl brydau bwyd, neu £25 am y Sadwrn yn unig ac yn cynnwys cinio a swper. Bydd modd aros nos Sadwrn hefyd am gost o £20.

Archebwch eich lle heddiw drwy lenwi'r ffurflen yma: https://forms.gle/ZKm4ALcXQoLNkw2E6.

Mae yna groeso i chi ein ffonio neu e-bostio os oes gennych unrhyw gwestiwn.

Edrychwn ymlaen yn fawr at eich croesawu yma atom ni.



# O'r Beibl: 13

## Y Gwynfydau (6)

*'Gwyn eu byd y rhai trugarog,*
*oherwydd cânt hwy dderbyn trugaredd.'*
(Mathew 5:7)

Yr wythnos hon, rydym yn cyrraedd y pumed gwynfyd, sydd i'w gael yn Mathew 5:7: 'Gwyn eu byd y rhai trugarog'. Yn yr adnod hon, mae Iesu'n dweud fod y 'rhai trugarog' yn wyn eu byd, hynny yw, wedi'u bendithio gan Dduw. Ond pwy yw'r rhai 'trugarog'? Beth mae'n ei olygu i fod yn 'drugarog'?

Yn y Testament Newydd, mae'r gair 'trugarog' yn gysylltiedig â'r gair 'maddeuant'. Bod yn drugarog felly yw bod yn barod i faddau. Mae'n golygu peidio â rhuthro i weld bai ar rywun, ond eu trin gyda thosturi. Yn wir, yn y Beibl, trugaredd yw'r gwrthwyneb i ddialedd. Os ydym eisiau esiampl o beth mae'n ei olygu i fod yn drugarog, cawn un perffaith yn yr Arglwydd Iesu, Mab Duw.

Nid yw'n syndod mai dyma'r ffordd mae Cristnogion i drin eraill. Wedi'r cyfan, fel pobl Dduw, mae Duw wedi ein trin ni yn ôl ei 'drugaredd'. Er ein bod ni'n bechaduriaid, trugarhaodd Duw wrthym. Er ein bod ni'n haeddu ei farn a'i ddicter am ein gwrthryfel gwarthus yn ei erbyn, fe wnaeth Duw ein caru gan wneud ffordd i faddau ein pechodau ni drwy aberth Iesu ar y groes.

Gan fod Duw wedi ein trin ni â'r fath drugaredd, rydym ni i gael yr un agwedd drugarog tuag at eraill. Rydym i fod yn barod i faddau i eraill ac yn llawn tosturi tuag at y bobl sydd o'n cwmpas – yn y gwaith, gyda'n ffrindiau, yn ein heglwysi, yn ein cartrefi. Fel y dywedodd yr Apostol Paul yn Colosiaid 3:13: 'Maddeuwch chi i bobl eraill yn union fel mae'r Arglwydd wedi maddau i chi.'

Pwy yw'r bobl hynny y gallem fod yn drugarog tuag atyn nhw heddiw? Pwy yw'r bobl hynny y gallwn faddau iddyn nhw heddiw? Mae bod yn drugarog yn beth mor radical. Yn aml mae'r byd yn creu'r argraff y dylem drin eraill fel maen nhw wedi ein trin ni. Os ydyn nhw wedi bod yn gas gyda ni, rydym ni i fod yn gas gyda nhw. Os ydyn nhw wedi ein hanwybyddu ni, rydym ni i'w hanwybyddu nhw. Er mai dyma'n gyson yw agwedd y byd, nid dyma yw agwedd y Cristion. Fel Cristnogion, mae Iesu'n dweud wrthym mai'r unig ffordd i ymateb i'r trugaredd yr ydym wedi ei dderbyn gan Dduw ydy trwy fod yn drugarog at eraill. Beth am chwilio am gyfleoedd i fod yn drugarog tuag at eraill yr wythnos hon?

Ond, fel yn achos pob gwynfyd, nid yw Iesu yn gorffen y gwynfyd yn y fan hon. Mae'n mynd ymlaen gan ychwanegu cymal arall: 'Gwyn eu byd y rhai trugarog, *oherwydd cânt hwy dderbyn trugaredd*'.

Beth mae Iesu yn ei olygu trwy ddweud hyn? Ydy Iesu'n datgan y bydd pobl yn derbyn trugaredd Duw yn wobr am fod yn drugarog? Yn ddi-os, nid dyma beth mae Iesu'n ei ddweud yma. Wedi'r cyfan, nid yw trugaredd Duw yn rhywbeth y gallem ei ennill na'i haeddu drwy ein gweithredoedd. Mae'n bwysig cofio gyda *phwy* mae Iesu'n siarad wrth iddo lefaru'r geiriau hyn. Nid yw'n siarad â'r dorf yn gyffredinol, ond â'i ddisgyblion yn benodol. Hynny yw, mae Iesu'n siarad â phobl sydd eisoes wedi derbyn trugaredd Duw, pobl sydd *eisoes* wedi credu yn Iesu a derbyn maddeuant Duw yn rhodd ganddo.



Ond y cwestiwn mawr i'w ofyn yw: beth sy'n dangos – beth sy'n profi – fod rhywun go iawn wedi derbyn trugaredd a maddeuant Duw? Wel, yr hyn sy'n profi fod rhywun yn wirioneddol wedi derbyn trugaredd Duw ydy ei bod hi neu ei fod ef nawr yn byw bywyd llawn trugaredd. Neu, a dweud yr un peth mewn geiriau eraill, y ffordd orau o ddangos fod Duw wedi trugarhau wrthym ydy drwy drugarhau wrth eraill yn ein bywydau ni ein hunain.

Dyma beth mae Iesu yn ei olygu yn adnod 7: 'Gwyn eu byd y rhai *trugarog'*. Hynny yw, gwyn eu byd y rhai sy'n gyntaf wedi derbyn trugaredd Duw a'r rhai sy'n awr yn dangos eu bod nhw wedi ei dderbyn trwy fod yn drugarog at eraill.

Pam mae'r bobl hyn yn 'wyn eu byd'? Wel, yn syml 'oherwydd cânt hwy *dderbyn* trugaredd' – nid fel gwobr, ond fel rhodd. Dyma'r bobl sydd *wedi* derbyn trugaredd Duw yn y gorffennol. Dyma'r bobl sydd *yn* profi trugaredd Duw yn y presennol. A dyma'n wir y bobl y bydd Duw *yn parhau* i'w trin yn ôl ei drugaredd am byth bythoedd.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt:

- Beth mae bod yn 'drugarog' yn ei olygu?
- Pam ein bod ni'n ei ffeindio hi'n anodd bod yn drugarog?
- Sut mae Duw wedi dangos ei drugaredd tuag atom ni?
- Sut y gallem ni fod yn drugarog tuag at eraill?

*Gwilym Tudur*

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 4 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**
Huw Foulkes yn trafod sut mae rhai o'n corau'n cyfrannu tuag at ein traddodiad emynyddol

**Sul, 4 Medi, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Evan Morgan, Caerdydd, ar drothwy Cymanfa Gyffredinol EBC

# Neges fawr y proffwyd bach

Hoffem ddymuno yn dda i ddarllenwyr *Y Tyst* ac i'r holl eglwysi ar gychwyn tymor yr Hydref wrth i nifer o weithgareddau ac oedfaon ailgydio o ddifrif. Fel Cristnogion rydym wedi bod trwy gyfnod eithriadol o anodd ac rydym yn parhau i weld effaith hynny ar ein cynulleidfaoedd. Er hynny dymunwn fendith, gweledigaeth a nerth i bawb ohonoch trwy bresenoldeb yr Ysbryd Glân. Boed i'r Arglwydd rymuso eich gwaith dros ei Deyrnas yma yng Nghymru.

### Neges galonogol

Ond sut mae dal ati mewn cyfnod o drai pan mae pobl yn cefnu a'n hachosion mor wan? Er mwyn eich annog i ddal ati'n hyderus, hoffem dynnu eich sylw at baragraff clo llyfr y Proffwyd Habacuc. Yma mae geiriau bendigedig a neges bwysig inni fel Cristnogion yn y cyfnod arbennig hwn.

> 17 Er nad yw'r ffigysbren yn blodeuo,
> ac er nad yw'r gwinwydd yn dwyn ffrwyth;
> er i'r cynhaeaf olew ballu,
> ac er nad yw'r meysydd yn rhoi bwyd;
> er i'r praidd ddarfod o'r gorlan,
> ac er nad oes gwartheg yn y beudai;
> 18 **eto** llawenychaf yn yr ARGLWYDD,
> a llawenhaf yn Nuw fy iachawdwriaeth.
> 19 Yr ARGLWYDD Dduw yw fy nerth;
> gwna fy nhraed yn ysgafn fel ewig,
> a phâr imi rodio uchelfannau.
>
> Habacuc 3 BCND

Yma, mae'r proffwyd yn disgrifio cyfnod anodd lle nad yw'r cnydau yn dwyn ffrwyth ac y mae'r rhagolygon yn dywyll. Y mae aflwyddiant i'w weld yn glir ym mhob man. Ond yna yn adnod 18 fe ddywed '**eto** llawenychaf yn yr ARGLWYDD, a llawenhaf yn Nuw fy iachawdwriaeth.'

### Eto

Er y methiant a'r aflwyddiant y mae yn parhau i lawenhau yn yr Arglwydd. Gair bach trawiadol yw'r gair **eto** yn adnod 18 sy'n newid naws y neges ac yn ei throi i fod yn gadarnhaol. Er y tryblith oedd yn ei fywyd, eto roedd llawenhau yn Nuw. Ceir yr un ergyd gan Job lle dywedir, 'Pe lladdai Efe fi, **eto** mi a obeithiaf ynddo Ef.' Job 13:15.

Ar un modd yn hanes y tri gŵr a daflwyd i'r ffwrnais dân yn Llyfr Daniel, wrth gyfarch y brenin:

> Os ydy'r Duw dyn ni'n ei addoli yn bodoli, bydd e'n gallu'n hachub ni o'r ffwrnais dân ac o'ch gafael chi, o frenin. [18] Ond hyd yn oed os ydy e ddim yn gwneud hynny, sdim gwahaniaeth. Does gynnon ni ddim bwriad addoli eich duwiau chi, na'r ddelw aur dych chi wedi'i chodi.
>
> Daniel 3:17 beibl.net

### Ydwyf yr hyn Ydwyf

Roedd Habacuc yn addoli Duw nid oherwydd unrhyw fanteision neu fendithion yr oedd yn eu derbyn ond oherwydd mai Duw ydoedd. A dyna beth mae Duw yn ei haeddu. Haedda ein mawl, ein teyrngarwch doed a ddelo. Nid ydym yn addoli Duw er mwyn inni gael bywyd rhwydd, bwyd ar ein byrddau neu iechyd. Rydym yn addoli Duw oherwydd mai ef yw'r Tad nefol sydd wedi ein creu, sydd yn ein cynnal ac yn ein hachub trwy wyrth a rhyfeddod gwaith Iesu trwy ei fywyd perffaith ei farwolaeth aberthol ar y groes a'i atgyfodiad. Dyma yw ffydd, ymddiried yn Nuw beth bynnag sy'n digwydd. Fel y dangosodd Iesu yng ngardd Gethsemane, pan ddywedodd wrth ei dad nefol, 'Boed i'r cwpan hwn fynd heibio. Onid nid fel y mynnaf fi ond fel y mynni di.'

Roedd yr Iesu yn berffaith fe gyflawnodd ewyllys Duw yn llwyr eto ni chafodd fywyd rhwydd, a bu farw ar groes. Eto cadwodd yn driw i'w Dad. Dyma'r hyn a welwn yn Habacuc caru Duw am ei fod yn Dduw llawn cariad gan ymddiried mewn ffydd yn ei sofraniaeth. Ei addewid yw Ei fod gyda ni bob amser beth bynnag yw troeon yr yrfa (Math. 28:20).

Gallwn yn rhwydd aralleirio'r geiriau hyn yn Habacuc gan ddweud:

> Pan mae salwch yn dod ac iechyd yn brin
> Pan mae rhyfel a dim sôn am heddwch
> Pan mae'r economi yn simsan a'r biliau yn ddrud
> Pan mae bywyd yn galed am ysbryd yn isel
> Pan gollaf fy swydd a dim bwyd ar y bwrdd
> Pan mae'r eglwysi yn wan a ffydd ar drai
>
> Eto, bydda i'n addoli'r ARGLWYDD
> ac yn dathlu'r Duw sydd yn fy achub i!
> Mae'r ARGLWYDD, fy meistr, yn rhoi nerth i mi,
> ac yn gwneud fy nhraed mor saff â'r carw
> sy'n crwydro'r ucheldir garw.

Ar gychwyn tymor yr Hydref a'r gaeaf ar ein gwarthaf, mae Duw yn sofran, yn dal i lywodraethu ac yn dal i'n caru yn Iesu. Y mae ei law Ef ar y llyw. Felly, ymrown i fyw a chyhoeddi'r newyddion da yn Iesu Grist a llawenhau gyda'n gilydd yn yr Arglwydd.

# GOHEBIAETH

Annwyl Olygydd,

Wel, dyna fendith a gefais wrth ddarllen Colofn Geir-iau gan Gwion Dafydd yn *Y Tyst*, 21 Gorffennaf 2022. Erthygl yn dwyn y pennawd, 'Tystio beth sy'n wir.' Mae'r person a ysgrifennodd yn dweud ei fod yn Gristion ac yn dyfynnu o'r Beibl. Gallai Gwion fod wedi dweud ei fod yn aelod yn yr Eglwys. Ond yr hyn y mae'n ei ysgrifennu yw ei fod yn Gristion, sef ei fod yn adnabod Iesu Grist fel GWAREDWR. Dyna dystiolaeth go iawn.

Bûm yn ymchwilio i'r gair; Efengylydd ac edrychais yng Ngeiriadur Ysgrythurol Thomas Charles ac yn yr oedd yn galw menyw yn Efengyles gan ddweud 'un sydd yn cyhoeddi yr efengyl,' gan ddyfynnu Eseia 40:9. 'Wele eich Duw chwi.'

Dyma sydd angen heddiw yng Nghymru, a hynny y tu allan i bedair wal y capel. Dyma yw gwaith pob Cristion heddiw, cyhoeddi'r newyddion da am Iesu. Dyna ddigwyddodd ar ddechrau Diwygiad 1904–05 yng Nghymru.

Gyda'r erthygl roedd llun hyfryd o'r teulu, teulu Cristnogol. Efengylu, dyma ddylai pob Cristion ei wneud heddiw.

**Wena Parry**



## DATHLIAD

Y Parchg Gwylfa Evans

60 mlynedd ers ei ordeinio yn weinidog 1962–2022

Eglwys Annibynnol Gymraeg Harrow

**Prynhawn Sul**
**Medi 11 am 3.00pm**

Croeso cynnes i bawb

# Barn Annibynnol

## Agor y drws

Yn ystod mis Gorffennaf eleni, cefais y fraint o fynd i Gynhadledd CWM Ewrop yn Great Missenden gan gynrychioli'r Annibynwyr gyda Dyfrig Rees, yr Ysgrifennydd Cyffredinol a myfyrwraig ifanc o Gaerdydd. Roeddwn yn teimlo'n gyffrous ond hefyd yn nerfus. Braf oedd cael cyfarfod â Christnogion eraill, o wahanol enwadau o wledydd Ewrop.

Testun y gynhadledd oedd 'Gadael fynd, codi i fyny a pharatoi at y wledd.' Gofynnwyd i ni ddod â gwrthrych gyda ni, oedd yn cynrychioli 'gadael fynd' a byddai cyfle wedyn i siarad am y peth a rhannu profiad. Wel am dasg! Bûm yn pendroni'n hir iawn cyn penderfynu. Dewisais allwedd fel y gwrthrych, oherwydd pwrpas allwedd yw *cloi* drws ond hefyd mae'n medru *agor* drws.

Meddyliais am hyn yn nhermau ein gofalaeth ni yn Sanclêr gan fanteisio ar y cyfle i rannu hanes prosiect Tŷ Croeso. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gorfod cau dau gapel, cloi'r drws am byth. Wrth wneud hyn cofiwch, ni fyddwn yn anghofio am eu cyfraniad i'r achos yn lleol; maent wedi bod yn rhan o'n traddodiad a'n treftadaeth ac mae cymaint i fod yn ddiolchgar amdano. A dydy llyfr y cof byth yn cau – mae gennym ni gyd drysorfa o atgofion hyfryd o'r gweithgarwch a fu.



Ond, mae allwedd hefyd yn medru *agor* drws - drws newydd ac weithiau bywyd newydd. Heb os nac oni bai, dyna beth sydd wedi digwydd yn ein hanes ni. Er y tristwch o orfod 'adael fynd' ar eglwysi Capel Mair ac Elim, Llanddowror, mi ddaeth cyfle i agor 'drws newydd' yn hanes yr ofalaeth a bywyd newydd. Lluniwyd cynllun i drawsnewid y defnydd a wneir ar gapel arall o'r ofalaeth, Bethlehem Newydd, drwy greu canolfan cymunedol at ddefnydd y gymuned leol yn ehangach wrth barhau yn lleoliad o addoliad. Bydd asedau'r ddau gapel sydd wedi cau yn fodd i ddechrau gwneud hyn.

Gelwir y cynllun yn Tŷ Croeso. A thrwy nawdd Undeb yr Annibynwyr drwy'r rhaglen Arloesi a Buddsoddi, llwyddwyd i gyflogi Swyddog Cymunedol i gydlynu'r gwaith hwn. Byddwn yn 'agor y drws' i'r gymuned ddod mewn i le croesawgar lle medrant gael cyfle i gymdeithasu a chael paned, cael cysur os ydynt yn unig. Ein bwriad dros y gaeaf, o ystyried tlodi tanwydd, yw 'agor y drws' fel bod modd i rai gael dod i mewn i gadw'n gynnes. Bydd modd hefyd i gymdeithasau a chael paned wedi dod drwy'r drws.

Mae gweledigaeth Tŷ Croeso hefyd yn cynnig cymorth i rai anghenus yr ardal. Er mwyn gwneud hyn, rydym y trefnu apêl wahanol yn rheolaidd. Yr ydym yn cefnogi lloches menywod a phlant Caerfyrddin yn wythnosol drwy gludo bwyd sydd dros ben o'r Co-op yn Sanclêr iddynt ddwywaith yr wythnos. Er mwyn casglu nwyddau ymolchi ar eu cyfer, gofynnwyd am gyfraniadau gan aelodau'r ofalaeth ac aelodau o'r gymuned yn ogystal.

Nawr, does dim pawb yn mynychu oedfa ar y Sul, felly dyma 'agor drws' y capel yn llythrennol ar bedwar bore Sadwrn gan estyn gwahoddiad i'r gymuned ddod i mewn â'u nwyddau. Cafwyd ymateb rhyfeddol. Roedd hyn 'nôl ym mis Tachwedd y llynedd a dydy'r nwyddau dal heb orffen! Mae'r lloches yn 'agor y drws' wrth gwrs ar gyfer gwragedd a phlant er mwyn iddynt gael noddfa ddiogel, hapus ar ôl iddynt ddianc rhag trais yn y cartref.

Agorwyd drws y capel i'r gymuned eto wrth gasglu dillad ac ati ar gyfer Coda Ni. Grŵp Cristnogol sydd yn gwerthu'r dillad ac yn cyfrannu'r arian ar gyfer elusennau lleol a thramor. Unwaith eto - daeth y gymuned drwy'r drws gyda'u cyfraniadau a lenwodd fan transit a dau gar mawr. Mae'n rhyfeddol beth fedrir ei gyflawni - dim ond wrth 'agor y drws'.

Nid yw'r gwaith o drawsnewid llawr y capel wedi dechrau eto. Bryd hynny gobeithiwn weld y drysau'n agor i gymaint mwy, gan gynnig llawer mwy na dim ond oedfa ar y Sul. Mae'r angen o'n cwmpas yn ddirfawr a hyderwn y medrwn gynnig cymorth dyngarol wrth ymestyn allan.

Gadewch i ninnau 'agor drysau' ein meddyliau a'n calonnau fel ein bod yn estyn allan mewn cariad at bwy bynnag a'i myn. Medrwn wneud hynny drwy ymateb mewn ffydd os ydym yn gyntaf, yn agor y drws i'r Un sy'n sefyll yno yn feunyddiol. Ni sydd i wneud y penderfyniad a fyddwn yn ei adael i mewn ai peidio, a thrwy hynny brofi bywyd newydd yn Iesu.

'Edrych! Dw i yma! Dw i'n sefyll wrth y drws ac yn curo. Os bydd rhywun yn fy nghlywed i'n galw ac yn dod i agor y drws, dof i mewn i rannu pryd o fwyd gyda nhw.' Datguddiad 3: 20

Gwyddom beth i wneud, gadewch i ni felly weithredu.

Wele wrth y drws yn curo
Iesu tegwch nef a llawr;
Clyw ei lais ac agor iddo
Paid ag oedi funud awr.
*Agor iddo*
Mae ei ruddiau fel y wawr.

**Annalyn Davies**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)


**CAPEL REHOBOTH, PUM HEOL, SIR GÂR, SA15 5EX**
**1822 – 2022**

**YMUNWCH GYDA NI YN Y DATHLU**

| Dyddiad | Amser | Digwyddiad |
|---|---|---|
| **Sadwrn, Medi 3** | **2.00** | **Gwasanaeth Diolchgarwch** – yn cynnwys plant y capel i dderbyn 'batwn coffadwriaethol', a dadorchuddiad Carreg Goffa.<br>Arweinydd: **Parchg David Jones BD**<br>Yn cymryd rhan: **Parchg Beti-Wyn James BD MTh**<br>**Ms Eirlys Myfanwy Davies** (Mezzo-Soprano) |
| **Sul, Medi 4** | **10.30 a 6.00** | **Cyrddau Mawr** – pregethwr gwadd:<br>**Parchg H. Vincent Watkins, Carmel, Pontlliw** |

**CROESO CYNNES IAWN I BAWB.**

***EFENGYL – ADDYSG – DIWYLLIANT – IAITH – AMAETH***

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*

**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.**

# Capel Bethel ac Eglwys yr Holl Saint, Penarth



Ers rhai blynyddoedd bellach mae nifer o aelodau Bethel, ynghyd â'u gweinidog, wedi ymuno mewn gwasanaeth cymun Cymraeg ar fore Mercher yn Eglwys yr Holl Saint. Braf yw cael cydaddoli a chyd-gymuno gyda'n gilydd yn un gynulleidfa. Fore Mercher 29 Mehefin, gweinyddwyd y cymun gan y Parchg D. Kevin Davies. Dyma gam enfawr ar ran yr Eglwys yng Nghymru a derbyniwyd caniatâd i Kevin weinyddu'r cymun wrth allor yr Eglwys gan Esgob Llandaf. Credwn mai cam cadarnhaol iawn ydyw i ddod â ni yn nes at ein gilydd. Eisoes, mae aelodau a ffrindiau o Fethel ac o'r Holl Saint yn arwain mewn darlleniadau a gweddïau ond dyma'r tro cyntaf yn ein hanes ym Mhenarth i weinidog sydd heb fod yn Anglican i weini'r cymun.

Braf yw cael addoli Duw gyda chynulleidfaoedd o wahanol enwadau, oherwydd mae cariad Duw yn fwy na threfn, yn fwy nac iaith ac yn fwy nac adeilad.





Emyn 'Ar y Daith'

Pan fo'r meddwl mewn tywyllwch,
Oriau'r nos yn teimlo'n hir,
Pan fo'r seiliau yn simsanu,
A'r atebion ddim yn glir;
Fe ddaw cyngor,
Crist sy'n gyfaill gwiw gerllaw.

Wrth weld blodau dan yr heulwen,
Teimlwn ddyddiau'r haf ar ddod,
Wrth weld angen rhywun arall,
Gwyddom fod nerth Gras yn bod,
Fe ddaw cysur,
Crist sy'n curo wrth y drws.

Ymlonyddwn eto'n eiddgar,
Yn ddisgwylgar ymgryfhawn,
Ymhyfrydwn yn y gobaith,
Cwmni'r Ceidwad eto gawn;
Fe ddaw cariad,
Crist sy'n agor inni'r nef.

Sian Meinir

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

## CYDLYNYDD HYRWYDDO GWEINIDOGAETHAU

Cyfle cyffrous i ymateb i heriau mae eglwysi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn eu hwynebu yn y cyfnod ôl-Covid.

• Oes gennych chi'r brwdfrydedd a'r ymroddiad i feithrin, cefnogi a datblygu gweinidogaethau?

• Oes gennych chi'r weledigaeth i ymateb i anghenion yr eglwysi mewn modd rhagweithiol ac arloesol?

• Ydych chi'n barod i fentro mewn cyfnod o newid?

Os felly, rydym yn awyddus i glywed gennych.

Derbynnir ceisiadau gan unigolion sy'n dymuno rhannu swydd.

I gael pecyn gwybodaeth ymgeiswyr neu sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch â'r
Ysgrifennydd Gweinyddol,
Tŷ John Penri,
5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon,
Bro Abertawe, ABERTAWE. SA7 0AJ

Ffôn: 01792-795888
E-bost: ann@annibynwyr.cymru

**Dyddiad cau: 9 Medi 2022**

Gwasanaeth Sefydlu'r
Parch Gareth Ioan

yn weinidog i Iesu Grist yn Eglwysi Annibynnol
Bryn Iwan, Blaen-y-coed, Nanternis a Moriah, Blaen-waun



Capel Bryn Iwan,
1.30yp, Dydd Sadwrn, 10 Medi 2022

"Yr wyf yn rhoi i chi orchymyn newydd, carwch eich gilydd".
(Ioan 13: 34)

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*